

Eich cyf / Your ref:

Gofynner am / Please ask for:

Fy nghyf / My ref:

Llinell Uniongyrchol / Direct Line:

Dyddiad / Date: 10/11/20

E-bost / E-mail:

gldavies@sirgar.gov.uk

Annwyl riant / gofalwr,

Gweler yn atodedig lythyr gan Kirsty Williams, y Gweinidog Addysg, lle mae'n cadarnhau na fydd arholiadau diwedd blwyddyn ar gyfer cymwysterau TGAU, Safon UG a Safon Uwch yn 2021.

Yn lle arholiadau mae Llywodraeth Cymru wedi datgan y bydd asesiadau a reolir gan athrawon, yn cynnwys asesiadau a fydd yn cael eu gosod a'u marcio'n allanol, ond a fydd yn cael eu cynnal yn yr ystafell ddoesbarth o dan oruchwyliaeth athrawon.

Bydd y canlyniadau'n cael eu seilio ar y rhain, ac yn gysylltiedig â dull y cytunir arno'n genedlaethol er mwyn sicrhau cysondeb ledled Cymru.

Rydym yn croesawu'r penderfyniad hwn gan y Gweinidog gan y bydd yn codi'r pwysau oddi ar ddysgwyr ac athrawon yn dilyn cyfnod hynod anodd a thrafferthus. Gwyddom fod ein myfyrwyr wedi bod yn bryderus am eu harholiadau oherwydd eu bod wedi colli cymaint o'r ysgol, ac oherwydd yr ansicrwydd parhaus ynghylch y dyfodol gan fod y coronafeirws yn dal i rygnu ymlaen.

Rydym yn edrych ymlaen at ddysgu rhagor am y dull hwn, ac yn gobeithio bod yn rhan o'r broses hon er mwyn sicrhau ei bod yn deg ac yn gyson i'n myfyrwyr, ac er mwyn gofalu bod ein hathrawon yn cael y cymorth a'r adnoddau sydd eu hangen arnynt.

Diolch ichi am eich cefnogaeth barhaus.



Y Cyngorydd Glynog Davies

Yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Addysg a Gwasanaethau Plant

Cyngorydd | Councillor - **Glynog Davies**

Aelod Bwrdd Gweithredol dros Addysg a Phlant

Cyngor Sir Gâr, Neuadd y Sir, Caerfyrddin SA31 1JP

Executive Board Member for Education and Children

Carmarthenshire County Council, County Hall, Carmarthen SA31 1JP



BUDDSODDWR | INVESTORS
MEWN POBL | IN PEOPLE

Mae croeso i chi gysylltu â mi yn y Gymraeg neu'r Saesneg

You are welcome to contact me in Welsh or English